

**ASTUDIAETH AR FYW BYWYDAU  
TRWY GYFRWNG Y GYMRAEG  
ADRODDIAD CRYNO**

***Hydref – Rhagfyr 2005***

Wedi ei baratoi ar gyfer: **S4C, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, BBC Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru**  
Cyswllt y cleient: Carys Evans

Paratowyd gan: **Beaufort Research**  
Cyswllt yr Asiantaeth: Fiona McAllister / Heledd Thomas

2 Museum Place  
Caerdydd  
CF10 3BG

Ffôn: (029) 2037 8565  
Ffacs: (029) 2037 0600  
Ebost: [ymholiadau@beaufortresearch.co.uk](mailto:ymholiadau@beaufortresearch.co.uk)  
Gwefan: [www.beaufortresearch.co.uk](http://www.beaufortresearch.co.uk)

© Beaufort Research Cyf 2006

BQ2580 / FM / 4<sup>ydd</sup> Mai 2006



1.	CRYNODEB GWEITHREDOL .....	1
2.	CYFLWYNIAD.....	3
3.	DARGANFYDDIADAU'R YMCHWIL .....	5
3.1	Y Cyd-destun .....	5
3.2	Y Darganfyddiadau Ansoddol.....	9
4.	ARGYMHELLION.....	16

**TELERAU'R CYTUNDEB**

*Oni gytunir yn wahanol, mae casgliadau'r astudiaeth hon yn aros yn hawlfraint Beaufort Research Cyf ac ni chaniateir iddo gael ei ddyfynnu, ei gyhoeddi na'i atgynhyrchu heb ganiatad y cwmni rhag blaen.*

*Dim ond o ganlyniad i wallau neu gam gynrychioli y bydd caniatad i gyhoeddi neu ddyfynnu yn cael ei wrthod.*

*Rhaid i unrhyw gyhoeddiad a awdurdodir nodi taw Beaufort Research cyf yw'r darparwr, ac hefyd nodi maint y sampl a'r dyddiadau maes.*

## 1. CRYNODEB GWEITHREDOL

---

Comisiynwyd prosiect ymchwil ar y cyd yn 2005 gan S4C, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, BBC Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru, i archwilio ac ystyried i ba raddau y mae siaradwyr Cymraeg (ac yn enwedig y rhai hynny o fewn y grŵp oedran 22-45) yn byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Roedd yr astudiaeth yn cynnwys cyfnod meintiol cychwynnol ymhlith sampl cadarn o 861 o siaradwyr Cymraeg ar draws Cymru, a gynhyrchoedd broffil o'u lefelau o gyfranogi mewn amrywiaeth o weithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg (a'r gweithgareddau cyfatebol yn Saesneg) yn ogystal â'u hagwedd tuag at y Gymraeg. Dilynwyd hyn gydag ymarferiad dadansoddi clwstwr wedi ei seilio ar y data a gasglwyd o'r arolwg a cyfres o gyfweiliadau ansoddol dwys gyda 39 o siaradwyr Cymraeg rhwng 22 a 45 mlwydd oed. Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng dechrau mis Hydref a dechrau mis Rhagfyr 2005.

Dyma'r casgliadau allweddol:

- Mae llai o siaradwyr Cymraeg 22-45 mlwydd oed yn disgrifio eu hunain fel bod yn rhugl yn y Gymraeg na phobl mewn grwpiau oedran eraill.
- Mae'r siaradwyr Cymraeg rhwng 22-45 mlwydd oed yn byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg i raddau llai na siaradwyr Cymraeg hŷn, ond fe ymddengys fod yna ffactorau eraill yn dylanwadu ar hyn, ochr yn ochr ag unrhyw agwedd bosibl ddi-hid neu ddiffyg ymrwymiad i'r Gymraeg gan fod pobl yn y grŵp oedran hwn â mwy o ddiddordeb mewn gwella eu Cymraeg nag yw hi felly drwedd a thro.
- Canlyniad yr ymarferiad dadansoddi clwstwr oedd chwe grŵp clwstwr, pob un gyda'u nodweddion gwahanol eu hunain a lefelau gwahanol o ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd: Cofleidwyr (9% o'r cyfan o'r rhai rhwng 22-45), Rhai yn y Brif Ffrwd (21%), Ymgoethwyr (8%), Dyhewyr (24%), Rhai di-hid (12%) ac Ymdrechwyr (26%). Mae pedwar ym mhob deg o'r rhai rhwng 22 a 45 mlwydd oed yn syrthio i'r ddau glwstwr gyda'r lefel isaf o ruglder yn y Gymraeg (Ymdrechwyr a'r Rhai di-hid).
- Canfyddiad siaradwyr Cymraeg rhwng 22 a 45 mlwydd oed yw bod i'r Gymraeg ddelwedd fwy cadarnhaol a'i bod mewn sefyllfa gryfach yn awr nac a fu erioed o'r blaen, felly bod y cyd-destun yn ymddangos yn fwy ffafriol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg i raddau helaethach yn eu bywydau pob dydd.
- Mae'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y graddau y mae'r siaradwyr Cymraeg yn y grŵp oedran hwn yn byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg yn gymhleth a chydberthnasol. Mae eu harwyddocâd yn aml yn amrywio rhwng un clwstwr a'r llall, er bod rhai yn bwysig i bob segment. Gellir eu crynhoi fel a ganlyn:
  - Pa mor rhugl ydynt?
  - I ba raddau y mae ganddynt y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg?
  - Oes yna ddewis Cymraeg ar gael?
  - Pa mor amlwg neu ar flaen y meddwl y mae'r dewisiad Cymraeg?

- Pa mor hawdd yw hi i gael mynediad neu ddarganfod beth sydd ar gael yn y Gymraeg?
- A yw'r hyn sy'n cael ei gynnig trwy gyfrwng y Gymraeg yn cwrdd â'u hanghenion neu eu dyheadau?
- Pa mor bryderus ydynt ynghylch defnyddio eu Cymraeg mewn sefyllfa benodol?

Mae'r argymhellion ar gyfer cynyddu cyfranogiad yn dilyn 5 prif thema ganolog sy'n deillio o ganfyddiadau'r astudiaeth, sef:

### **1. Marchnata**

Dylid ystyried marchnata a hyrwyddo traws-gyfyngol gan ddefnyddio'r prif sianeli a chyfyngau Saesneg ei hiaith er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd a chodi proffil y celfyddydau a'r cyfyngau Cymraeg

### **2. Dewis a Pherthnasedd**

Ehangu'r dewis o ddigwyddiadau / cynrychiadau / rhaglenni sy'n cael eu cynnig (ym mha ffyrdd bynnag sy'n bosib), a chyflwyno rhagor sydd wedi eu creu yn benodol ar gyfer yr ystod oedran 22-45 ac sy'n apelio at chwaeth boblogaidd a rhai C2DE

### **3. Dosbarthiad**

Cynyddu dosbarthiad deunyddiau Cymraeg ym mhrif siopau'r stryd fawr, er mwyn cynyddu argaeledd, a gwelededd, y dewisiadau Cymraeg i'r siaradwyr Cymraeg i gyd.

### **4. Addysg a gwybodaeth**

Ystyried ymgyrchoedd gwybodaeth a hyfforddiant er mwyn newid arferion a hefyd leihau'r ymdeimlad o risg sy'n gysylltiedig â defnyddio'r Gymraeg mewn rhai sefyllfaoedd ffurfiol

### **5. Cyfleoedd**

Hyrwyddo y cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg fedru defnyddio'r Gymraeg cymaint â phosib yn eu bywydau pob dydd, naill ai trwy roi hwb i hyder dysgwyr trwy greu sefyllfaoedd anffurfiol, lle gallant ymlacio ac ymarfer eu Cymraeg neu trwy ei gwneud yn haws i fedru adnabod siaradwyr Cymraeg eraill mewn manau cyhoeddus.

## 2. CYFLWYNIAD

### 2.1.1 Y Cefndir a'r Amcanion


Yn ystod Haf 2005, penderfynodd S4C, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, BBC Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru gyd-weithio ar brosiect ymchwil ar y cyd, a Beaufort Research enillodd y gwaith. Amcanion yr astudiaeth oedd archwilio i ba raddau yr oedd siaradwyr Cymraeg yn byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y rhai hynny rhwng 22 a 45 mlwydd oed.

Yr oedd yr amcanion penodol fel a ganlyn:

- Cael mewnwelediad i sut y mae siaradwyr Cymraeg yn dod i benderfyniadau ynghylch pa elfennau o'u bywydau y maent yn eu byw trwy gyfrwng y Gymraeg
- Ymchwilio i ddelwedd y Gymraeg yng Nghymru ar hyn o bryd a pha effaith y mae hyn yn ei gael ar y broses o benderfynu
- Darganfod pa rwystrau sy'n bodoli i gyfranogi mewn digwyddiadau Cymraeg a chyfranogi mewn digwyddiadau, cyhoeddiadau, y wasg a'r cyfryngau Cymraeg ac hefyd beth yw'r cymhellion ar gyfer y rhai sy'n gwneud hynny

### 2.1.2 Y Fethodoleg

Mae'r fethodoleg a ddefnyddiwyd yn cynnwys dau gyfnod ymchwil amlwg wahanol a chyfuniad o ddulliau ansoddol a meintiol:



Ffigur 1

Gan gymryd pob elfen yn ei thro:

- **Trosolwg Meintiol**

Fel man cychwyn, caed ciplun o ymddygiad ac agweddau sampl cynrychioladol o siaradwyr Cymraeg 16 mlwydd oed neu'n hŷn, ar draws Cymru, gan ddefnyddio Arolwg Omnibws Beaufort o siaradwyr Cymraeg.

At ddibenion yr astudiaeth hon, lleihawyd y sampl cyfan o 1,012 o oedolion a ddywedodd eu bod yn medru ychydig o Gymraeg i lawr i 861. Ni chynhwyswyd y rhai hynny a ddywedodd taw dim ond ychydig eiriau o Gymraeg y medrent siarad.

Wedyn, holwyd cyfres o gwestiynau i'r siaradwyr Cymraeg hynny a oedd yn gymwys parthed eu cyfranogiad mewn gweithgareddau amrywiol trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg gan roi sylw i'r cyfryngau a'r celfyddydau, yn ogystal â holi cwestiynau ynghylch eu defnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd amrywiol y tu mewn ac oddi allan i'r cartref, a'u hagwedd tuag at y Gymraeg.

Cynhaliwyd y cyfweiliadau rhwng 6<sup>ed</sup> a'r 12<sup>fed</sup> Hydref 2005.

- **Dadansoddiad Clwstwr**

Yn dilyn cyfnod I, cynhaliwyd ymarferiad dadansoddi clwstwr gan ddefnyddio'r data a gasglwyd yn yr Arolwg Omnibws o Siaradwyr Cymraeg. Roedd hwn yn cymryd i ystyriaeth ddata demograffig, agweddau ac ymddygiad.

Cynhaliwyd y dadansoddiad cychwynol ar y set ddata cyfan (hynny yw, oedolion oed 16+), ond cadarnhawyd y segmentiad clwstwr a ymddangosodd er mwyn sicrhau fod yr atebion yn berthnasol i'r rhai hynny o fewn yr ystod oedran 22-45, prif bwyslais y prosiect.

- **Cyfweiliadau Ansoddol**

Roedd elfen olaf yr astudiaeth yn canolbwyntio'n llwyr ar y rhai hynny o fewn y grŵp oedran 22-45. Cynhaliwyd 21 cyfweiliad dwys penagored gyda 39 siaradwr Cymraeg (ar y cyfan mewn parau, ond rhai gydag unigolion) ar draws Cymru, wedi eu clystyru mewn 6 lleoliad:

<b>De ddwyrain Cymru</b>	Caerdydd
<b>Gorllewin Cymru</b>	Llanelli
<b>Canolbarth Cymru</b>	Aberystwyth
<b>Gogledd ddwyrain Cymru</b>	Wrecsam
<b>Gogledd orllewin Cymru</b>	Llangefni a Llandudno

Cynhaliwyd cyfweiliadau rhwng 28<sup>ain</sup> Tachwedd a 7<sup>fed</sup> Rhagfyr 2005.

### 3. CANFYDDIADAU'R YMCHWIL

---

#### 3.1 Y CYD-DESTUN

##### 3.1.1 I ba raddau y mae siaradwyr Cymraeg yn byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd?

Ar ddechrau'r arolwg, gofynnwyd i siaradwyr Cymraeg ddiffinio eu rhuglder yn y Gymraeg. Ar y cyfan, disgrifiodd 60% eu hunain fel 'rhugl' ond roedd y cyfran yn dweud hyn yn is ymysg y grŵp oedran 22-25 (ar 53%) ac uchaf ymysg y rhai hynny oedd yn 46 a throsodd (66%).


<b>Pa un o'r rhain sydd yn disgrifio eich gallu i siarad Cymraeg?</b>				
<b>%</b>	<b>Holl Siaradwyr Cymraeg (861)</b>	<b>Oedran 16-21 (126)</b>	<b>Oedran 22-45 (270)</b>	<b>Oedran 46 + (465)</b>
Rwyf yn rhugl yn y Gymraeg	60	56	53	66
Gallaf siarad swm gweddol o Gymraeg	17	19	20	15
Dim ond ychydig o Gymraeg y gallaf siarad	22	25	27	18

Tabl 1

Mae'r arolwg meintiol yn dangos fod y defnydd o ffynonellau cyfryngol Cymraeg a phresenoldeb Cymry Cymraeg dros pob lefel rhuglder mewn digwyddiadau celfyddydol neu ddiwylliannol Cymraeg bron bob amser yn is na'r sefyllfa gyfatebol yn y Saesneg.

Ymhellach, mae'r lefel yn is fyth ar y cyfan ymhlith y rhai hynny yn y grŵp oedran 22-45 sef y rhai y canolbwyntir arnynt yn yr astudiaeth hon.

## Defnydd o'r Cyfryngau / Mynychu Digwyddiadau Celfyddydol




Ffigur 2

Nid yw hi'n syndod, fod yna berthynas amlwg rhwng y lefel rhuglder a chyfranogi - y rhai hynny sy'n disgrifio eu hunain fel bod yn rhugl yn y Gymraeg yw'r rhai tebycaf o gymryd rhan mewn gweithgaredd trwy gyfrwng y Gymraeg.

Serch hyn, mae hyd yn oed siaradwyr Cymraeg rhugl bron bob amser yn fwy tebygol i fod yn gwneud y pethau hyn trwy gyfrwng y Saesneg na'r Gymraeg. Er enghraifft, dywedodd 96% o siaradwyr Cymraeg rhugl eu bod wedi gwyllo rhaglen laith Saesneg yn y mis diwethaf (o'i gymharu â 91% yn dweud eu bod wedi gwyllo rhaglen yn yr laith Gymraeg yn y cyfnod amser hwn), 82% eu bod wedi gwrando ar y radio yn yr laith Saesneg (o'i gymharu â 71% yn dweud hyn am radio'r laith Gymraeg) a dywedodd 64% eu bod wedi darllen llyfr yn yr laith Saesneg (o'i gymharu â 38% wedi darllen llyfr yn yr laith Gymraeg) (gweler Ffigur 3).



## Cyfranogiad yn ôl Lefel Rhuglder yn y Gymraeg



Figur 3

Mae'r grŵp oedran 22-45 yn llai tebygol na siaradwyr Cymraeg hŷn, i siarad Cymraeg bob amser neu fel rheol adref a thu allan i'r cartref, ac yn llai tebygol o gytuno eu bod yn 'teimlo'n fwy cyfforddus yn siarad Cymraeg na Saesneg'. Ar yr un pryd, maent â diddordeb uwch nac ar y cyfan mewn gwella eu Cymraeg ac mewn cael cyfle i ddefnyddio mwy ar y Gymraeg.

Felly, tra bod y rhai rhwng 22-45 mlwydd oed yn byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg i raddau llai na siaradwyr Cymraeg hŷn, nid yw'n ymddangos fod hyn yn seiliedig ar ddihidrydd na diffyg diddordeb. Rhaid felly fod ffactorau eraill yn cyfrannu ac fe archwilir y rhain yn helaethach isod.

### 3.1.2 A fedrwn ni ddosrannu siaradwyr Cymraeg mewn ffordd sy'n ein cynorthwyo i ddeall eu hymddygiad ac sy'n cynnig cyfle i gynyddu cyfranogiad yn y dyfodol?

Canlyniad y dadansoddiad clwstwr oedd chwe grŵp clwstwr, pob un â'i nodweddion gwahanol a lefelau amrywiol o fyw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg:


1. Cofleidwyr
2. Rhai yn y Brif Ffrwd
3. Ymgoethwyr
4. Dyhewyr
5. Rhai di-hid
6. Ymdrechwyr.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gwahaniaethau allweddol yn nodweddion pob clwstwr:

Dimensiwn	Grŵp Clwstwr					
	Cofleidwyr	Rhai yn y Brif Ffrwd	Ymgoethwyr	Dyhewyr	Rhai di-hid	Ymdrechwyr
% o holl siaradwyr Cymraeg yn y clwstwr	12	28	8	23	11	18
Rhugl yn y Gymraeg	Uchel iawn	Uchel iawn	Canolig	Canolig	Isel	Isel iawn
Wedi dechrau siarad Cymraeg yn blentyn bach	Uchel iawn	Uchel iawn	Canolig	Canolig	Gweddol isel	Isel
Yn medru darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn dda iawn	Uchel iawn	Gweddol uchel	Canolig	Canolig	Isel	Isel iawn
Pawb o fewn y cartref yn siarad Cymraeg	Uchel	Uchel	Canolig	Canolig	Isel	Isel
Cyfran rhwng 22-45 oed	Isel	Isel	Canolig	Canolig	Canolig	Uchel
Cyfran o ABC1	Uchel	Isel	Uchel iawn	Canolig	Canolig	Canolig
Defnydd o'r Gymraeg ar lafar	Uchel	Uchel	Isel	Isel	Gweddol isel	Isel
Cyfranogiad mewn celfyddydau a diwylliant Cymraeg	Uchel	Isel	Uchel	Gweddol isel	Gweddol isel	Gweddol isel
Defnydd o Gyfryngau Cymraeg	Uchel	Uchel	Gweddol uchel	Uchel	Isel	Isel
Pa mor gadarnhaol tuag at y Gymraeg	Gweddol uchel	Canolig	Gweddol isel	Canolig	Isel	Gweddol uchel
<b>Diffiniadau:</b>						
<p><b>Defnydd o'r Gymraeg ar lafar:</b> bob amser / fel arfer yn defnyddio'r Gymraeg adref / y tu allan i'r cartref / y tu allan i gylch y teulu a chyfeillion: yn cytuno'n gryf â'r datganiad 'rwy'n teimlo'n fwy cyfforddus yn siarad Cymraeg nag Saesneg'; bob amser yn llenwi rhan Gymraeg ffurflenni swyddogol</p> <p><b>Cyfranogiad mewn celfyddydau a llenyddiaeth Gymraeg:</b> yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi mynychu digwyddiad theatr / llenyddol / digwyddiad diwylliannol neu gymdeithasol arall trwy gyfrwng y Gymraeg; wedi darllen neu ddefnyddio llyfr / cylchgrawn neu bapur newydd / wefan Gymraeg yn ystod y mis diwethaf</p> <p><b>Defnydd o'r Gyfryngau Cymraeg:</b> wedi gwyllo neu wrando ar deledu / radio Cymraeg yn ystod y mis diwethaf; wedi derbyn newyddion Cymraeg yn ystod y mis diwethaf ynghylch Cymru / ynghylch y DU a'r Byd</p> <p><b>Pa mor gadarnhaol tuag at y Gymraeg:</b> yn cytuno 'hoffwn allu siarad gwell Gymraeg' / 'Dylai siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy aml' / yn cytuno'n gryf â 'Byddwn yn croesawu'r cyfle i wneud mwy yn y Gymraeg' / 'Mae siarad Cymraeg yn eich helpu i ffitio i fewn yn well yng Nghymru'</p>						

Tabl 1

Tra bod y Rhai yn y Brif Ffrwd yn gyfrifol am y gyfran helaethaf o oedolion sy'n siarad Cymraeg o oed oedolyn yn eu crynswth (28%), yr Ymdrechwyr (26%) a'r Dyhewyr (24%) sy'n cynrychioli'r gyfran uchaf o blith y grŵp rhwng 22-45 mlwydd oed - y naill glwstwr fel y llall ar y cyfan â lefel is o ruglder.



Ffigur 4

## 3.2 Y CANFYDDIADAU ANSODDOL

Mae'r grwpiau clwstr wedi eu defnyddio fel sylfaen ar gyfer dadansoddi'r canfyddiadau ansoddol. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi fod dau glwstr – Ymgoethwyr a'r Rhai di-hid – nad ydynt wedi eu cynrychioli yn y sampl oherwydd na recriwtiwyd yr ymatebwyr i'r cyfweiliadau ar sail aelodaeth clwstr.

### 3.2.1 Beth yw delwedd y Gymraeg ar hyn o bryd?

Y consensws ymhlith siaradwyr Cymraeg 22-45 mlwydd oed oedd bod y Gymraeg â delwedd fwy cadarnhaol a'i bod mewn sefyllfa gryfach yn awr nac erioed o'r blaen. Fodd bynnag, pe bai sampl y cyfweiliadau dwys wedi cynnwys Rhai di-hid, mae'n debyg y buasai barn wrthwynebus wedi ei mynegi. Mae agwedd y Rhai di-hid tuag at yr Iaith Gymraeg yn llawer llai cadarnhaol na'r holl glystyrau eraill. Er enghraifft, dim ond 28% o Rai di-hid a gytunodd gyda 'Mae siarad Cymraeg yn eich helpu i ffitio i fewn yn well yng Nghymru' (o'i gymharu â 74% ar y cyfan) a roedd 43% o'r farn y 'Gall ddiwylliant yr Iaith Gymraeg ymddangos ychydig yn amherthnasol ar adegau' (o'i gymharu â 25% ar y cyfan).

Pwysleisiodd y rhai a holwyd taw'r canfyddiad bellach yw ei bod hi'n 'cool' i fod yn Gymro y dyddiau hyn a bod hynny'n gwneud siarad Cymraeg yn ffasiynol hefyd. Y farn gyffredinol (yn enwedig ymhlith y rheini a oedd yn byw y tu allan i'r bröydd Cymraeg 'traddodiadol') oedd bod i'r Gymraeg le amlycach a derbyniad ehangach bellach, gyda mwy o Gymraeg yn cael ei

siarad mewn llefydd fel Caerdydd ac o ganlyniad i'r twf cyson yn y ddarpariaeth addysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

Teimlai'r rhai ym mhob grŵp clwstwr fod siarad Cymraeg o fantais yn nhermau gyrfaol ac yng nghyswllt dringo'r ysgol yn y gwaith. Roedd y Dyhewyr a'r Ymdrechwyr yn teimlo hefyd fod siarad Cymraeg yn rhoi mynediad i gylchoedd cymdeithasol newydd, ac, ymhlith rhyw ychydig yn ne ddwyrain Cymru, yn fodd i hybu ei statws (gan nad yw'n rhywbeth y gall pawb yn yr ardal ei wneud). Yr unig anfantais a grybwyllwyd gan leiafrif o blith grŵp yr Ymdrechwyr, oedd y gellid ei weld fel rhywbeth anghynhwysol ac ychydig yn ddigroeso i'r rheini sydd ddim yn siarad Cymraeg.

Mae'r cyd-destun cyffredinol felly yn ymddangos fel petai'n ffafrio mwy, yn hytrach na llai, o ddefnydd o'r Gymraeg ym mywyd pob dydd.

### **3.2.2 Sut y mae siaradwyr Cymraeg yn penderfynu ynghylch pa agweddau o'u bywydau i'w byw trwy gyfrwng y Gymraeg?**

Nid penderfyniad ymwybodol yw hi bob amser i ddefnyddio neu beidio â defnyddio'r Gymraeg, neu i gyfranogi mewn gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg – yn aml, mae'n rhywbeth greddfodol neu o ganlyniad i rym arferiad.

Mae'r mwyafrif o Gofleidwyr a'r Rhai yn y Brif Ffrwd yn tueddu i siarad Cymraeg a'i defnyddio heb feddwl, gan ei fod yn rhywbeth sy'n naturiol iddynt. Ar yr un pryd, mae nifer yn ymwybodol fod medru siarad Cymraeg yn rhywbeth arbennig, sy'n esgor ar wobrau emosiynol fel ymdeimlad o berthyn neu gyswllt â'r fro neu'r bobl o'u cwmpas. Mae Dyhewyr ac Ymdrechwyr yn fwy tebygol o wneud penderfyniad ymwybodol ynghylch defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd arbennig, gan nad ydynt yn defnyddio'r Gymraeg yn reddfodol. Y wob'r o wneud hynny yw ymdeimlad o lwyddiant.

### **3.2.3 Pa rai yw'r dylanwadau a'r rhwystrau i fyw bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg?**

Mae'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y graddau y mae siaradwyr Cymraeg yn byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg yn lluosog, yn gymhleth ac yn gyd-gysylltiedig. Mae rhain wedi eu crynhoi islaw, ynghyd a'r rhwystrau sydd yn gweithio yn erbyn defnydd ehangach o'r iaith Gymraeg yn eu bywydau bob dydd:

- **Pa mor rhugl yw eu Cymraeg?**

Nid yw'n syndod efallai fod y **lefel rhuglder neu'r ymdeimlad o fod yn rhugl yn y Gymraeg**, ynghyd â'r mater cysylltiedig, sef **lefel yr hyder** yn eu gallu eu hunain yn dylanwadu'n ddirfawr ar faint a wneir trwy gyfrwng y Gymraeg.

I Ddyhewyr ac Ymdrechwyr mae **diffyg hyder** yn rhwystr sylweddol i ddefnyddio'r iaith, a chyfranogi mewn rhai gweithgareddau penodol trwy

gyfrwng y Gymraeg. Mae'r grwpiau hyn yn fynych yn gyndyn i siarad Cymraeg ag eraill (yn enwedig oddi allan i'r 'cyd-destun cysurus' cyfeillion neu'r teulu), heb son am ysgrifennu yn Gymraeg. Soniodd rhai eu bod yn fynych yn cael **problemau wrth geisio ymarfer eu Cymraeg**, gan y buasai siaradwyr Cymraeg yn troi i'r Saesneg o sylweddoli nad oeddent yn rhugl, yn hytrach na chaniatáu iddynt barhau i ymdrechu.

Roeddent hefyd yn cael rhai **trafferthion ymarferol gyda rhai o'r Cyfryngau Cymraeg**, megis radio (gan nodi fod cyflwynwyr yn siarad yn rhy chwim gan ei gwneud hi'n anodd i ddilyn yr hyn oedd yn mynd ymlaen), llyfrau a chylchgronau (lle'r oedd rhai yn beirniadu natur ffurfiol y Gymraeg a ddefnyddid) a gwefannau (lle'r oedd diffygion gyda defnyddio'r cyfrifiadur yn ei gwneud hi'n anos fyth i geisio defnyddio gwefan Gymraeg).

Ymhellach fyth, roedd rhai o'r segmentau mwy rhugl (Rhai yn y Brif Ffrwd yn arbennig) yn **gyndyn i ysgrifennu neu ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destun ffurfiol**, gydag ansicrwydd yn cael ei fynegi ynghylch gramadeg, geirfa, a'r defnydd o dermau technegol neu arbenigol. Felly, hyd yn oed ymhlith y rheini a fuasai'n disgrifio eu hunain fel bod yn rhugl, buasent yn aml ddim yn ystyried llenwi'r fersiwn Gymraeg o ffurflenni swyddogol.

- **A ydynt yn cael cyfle i ddefnyddio'u Cymraeg?**  
**Mae amgylchiadau personol (hynny yw, yr iaith a siaredir gan aelodau'r teulu, gan eu cylch o deulu a chyfeillion, yn ogystal â'r lle y maent yn byw neu'n gweithio)** yn medru cael dylanwad mawr ar ba un ai ydynt, neu pa bryd ac ym mha le y mae siaradwyr Cymraeg yn y grŵp oedran hwn yn defnyddio'r Gymraeg.

Y prif rwystr yn syml i siarad Cymraeg i'r Cofleidwyr a'r Rhai yn y Brif Ffrwd oedd **dod i gysylltiad â phobl nad ydynt yn medru siarad Cymraeg**. Mae'r diffyg cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy o broblem i'r Dyhewyr a'r Ymdrechwyr, a oedd yn fwy tebygol o fyw a gweithio mewn ardaloedd lle nad oes gan y Gymraeg llawer o bresenoldeb, lle nad oes rhwydweithiau cymdeithasol Cymraeg eu hiaith sefydledig, a hefyd i fyw mewn cartrefi sy'n cynnwys rhai aelodau sydd ddim yn siarad Cymraeg. Yn y sefyllfa olaf hon, Saesneg sy'n dominyddu, hyd yn oed os yw'r partner yn siaradwr Cymraeg rhugl, oni wneir trefniant mwy 'ffurfiol', h.y. i siarad Cymraeg yn unig â'i gilydd ar rai dyddiau penodol.

- **A oes yna ddewis Cymraeg ar gael?**  
Ymddengys fod yna rai ardaloedd cyfryngol penodol lle **nad oes yna wasanaeth Cymraeg cyfatebol yn bodoli**, yn enwedig ym maes diwylliant poblogaidd. Soniodd rhai o blith grŵp y Rhai yn y Brif Ffrwd nad oedd yna gylchgronau 'storïau go iawn' fel 'Take a Break' neu gylchgronau merched yn rhoi sylw i enwogion, ar gael, felly 'does yna ddim iddynt ei brynu yn y Gymraeg. Roedd ymdelimid hefyd nad oedd 'na ddim cylchgronau Cymraeg ar gael i'w plant.

O ganlyniad roedd rhai pobl, yn enwedig y Rhai yn y Brif Ffrwd ond hefyd o blith y Dyhewyr a'r Ymdrechwyr, a oedd yn dod o gyfeiriad bod eisiau dysgu neu wella eu Cymraeg, **yn teimlo fod yr hyn sydd ar gael yn Gymraeg yn tueddu i fod yn reit ddifrifol neu'n uchel ael**. Dichon fod y farn a fynegwyd fod y Gymraeg a ddefnyddir yn y celfyddydau a'r cyfryngau (gan gynnwys teledu a'r radio) yn ffurfiol a 'chywir' iawn ac weithiau'n anodd ei ddeall yn cyfrannu at y canfyddiad hwn.

- **I ba raddau y mae'r dewis Cymraeg yn amlwg neu uchaf yn y meddwl?**

**Mae'r diffyg ymwybyddiaeth fod modd gwneud rhai pethau trwy gyfrwng y Gymraeg** weithiau yn gyfrifol am fethiant pobl i ddefnyddio'r Gymraeg i raddau helaethach yn eu bywydau pob dydd. Er enghraifft, roedd y mwyafrif o'r siaradwyr Cymraeg yn yr astudiaeth (hyd yn oed y rheini a oedd yn defnyddio'r we yn gyson) ddim yn ymwybodol fod gwefannau Cymraeg yn bodoli ac weithiau'n ddi-glem ynghylch sut i fynd ati i'w darganfod. Ar yr un pryd, roedd yna gryn ddiddordeb yn y syniad a dywedodd rhai y buasent yn awr yn mynd ati i geisio'u darganfod.

Mae **grym arferiad (a syrthni)** weithiau'n gysylltiedig â hyn - weithiau mae siaradwyr Cymraeg yn cydnabod nad ydynt yn gwneud rhai pethau trwy gyfrwng y Gymraeg oherwydd eu bod wedi arfer eu gwneud trwy gyfrwng y Saesneg a heb erioed feddwl am eu gwneud yn wahanol, er enghraifft, defnyddio'r dewis Cymraeg wrth dynnu arian allan o'r peiriant twll yn y wal yn y banc. Mae yna ffactorau eraill hefyd yn y cyswllt hwn, fodd bynnag, megis **y canfyddiad o'r risg sy'n gysylltiedig â gwneud rhywbeth, stad o feddwl yr unigolyn** (os yw pobl mewn brys yna maent yn fwy tebygol o ddefnyddio'r ffordd 'arferol' y maent yn cymryd yn ganiataol fydd yn gynt) a hefyd **ffurfioldeb y sefyllfa ac felly'r math o Gymraeg a fydd yn cael ei ddefnyddio**.

- **Pa mor hawdd yw hi i gael gafael ar ddeunyddiau Cymraeg neu ddod i wybod ynghylch yr hyn sydd ymlaen yn Gymraeg?**

Dengys yr astudiaeth fod llawer o siaradwyr Cymraeg yn cael **trafferth wrth ddod i wybod ynghylch lle i ddod ar draws llyfrau, cylchgronau a cherddoriaeth Cymraeg**, yn arbennig felly Ddyhewyr ac Ymdrechwyr sy'n byw y tu allan i gadarnleoedd traddodiadol y Gymraeg. Roedd rhai siaradwyr Cymraeg nad oeddent yn rhugl ddim hyd yn oed yn gwybod lle i ddod ar draws Radio Cymru ar eu radio.

Hyd yn oed lle'r oedd pobl yn gwybod lle'r oedd deunyddiau Cymraeg ar werth, roedd nifer yn **feirniadol o'r ffaith fod rhaid iddynt fynd allan o'u ffordd i lefydd fel siopau Cymraeg arbenigol er mwyn cael mynediad iddynt**. Roedd llawer o siaradwyr Cymraeg er enghraifft yn cael trafferth deall pam fod 'na ddim dewis o lyfrau Cymraeg yn y siopau llyfrau mawr megis Waterstones, fel bod modd iddynt brynu llyfrau Cymraeg ar yr un adeg a llyfrau Saesneg (teimlid fod y dewis o lyfrau Cymraeg ar gael yn siopau llyfrau'r stryd fawr ar hyn o bryd yn eithriadol o sâl). Gwnaed yr un

pwynt yng nghyswllt ffilmiau gyda rhai pobl yn holi pam nad oes 'na ffilmiau Cymraeg ar gael i'w rhentu o siopau fideo'r stryd fawr?

Yn fwy cyffredinol, **roedd ffynonellau gwybodaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg ynghylch yr hyn sydd ymlaen trwy gyfrwng y Gymraeg ar y cyfan yn ad hoc iawn**, gyda chryn ddibyniaeth ar bosteri mewn llefydd arbenigol 'Cymraeg' megis siopau llyfrau, caffis a thafarndai, yn ogystal ag ar lafar. Roedd pobl nad oeddent yn mynd i lefydd felly neu ddim â rhwydwaith gymdeithasol Gymraeg ei hiaith (Dyhewyr ac Ymdrechwyr ar y cyfan) yn teimlo felly **nad oedd ganddynt lawer o glem ynghylch yr hyn oedd yn digwydd trwy gyfrwng y Gymraeg yn lleol**. Roedd hyd yn oed y rhai a oedd yn mynychu'r rhain (Cofleidwyr a'r Rhai yn y Brif Ffrwd ar y cyfan) yn tueddu i fod **yn feirniadol ynghylch faint o wybodaeth sydd ar gael a'r cyhoeddusrwydd ar gyfer digwyddiadau Cymraeg**, gan nodi fod **y baich o ddod i wybod am bethau ar yr unigolyn** ac felly fod llawer o bobl yn colli allan.

- **A yw'r hyn sy'n cael ei gynnig yn boddhau anghenion neu ddyheadau siaradwyr Cymraeg?**

Yn amlwg, **fydd siaradwyr Cymraeg ddim yn cymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg na chwaith droi at y cyfryngau Cymraeg dim ond oherwydd eu bod yn digwydd trwy gyfrwng y Gymraeg** - rhaid bod ganddynt diddordeb yn y categori beth bynnag. O'r herwydd mae'r mwyafrif o siaradwyr Cymraeg yn 'dewis a dethol' y rhaglenni Cymraeg y maent yn eu gwyllo (yn union fel y maent yn ei wneud wrth wyllo teledu trwy gyfrwng y Saesneg) gan droi at S4C pan fod yna rhywbeth yn cael ei ddangos sydd o ddiddordeb iddynt hwy'n bersonol, yn hytrach na gwyllo'r sianel yr holl adeg.

Cadarnheir fod diddordeb mewn categori neu genre yn rhagofyniad iddynt gyfranogi trwy gyfrwng y Gymraeg gyda'r enghraifft o'r hyn sy'n digwydd yng nghyd-destun y theatr yn Gymraeg - mae siaradwyr Cymraeg yn llawer mwy tebygol o fynychu perfformiad Cymraeg yn y theatr os ydynt hefyd yn mynychu cynrychiadau theatr yn Saesneg.

Hyd yn oed pan fydd rhywun yn diddori digon i fynychu / gwyllo / gwrandao / darllen yn Gymraeg, gwnânt hynny'n gyson dim ond os yw'r cynnyrch sy'n cael ei gynnig yn cwrdd â'u hanghenion. Dengys yr ymchwil **ganfyddiad fod yna fylchau yn yr hyn sy'n cael ei gynnig gan y cyfryngau Cymraeg** - roedd llawer o'r rhai dan ddeugain mlwydd oed (ar draws pob un o'r pedair adran glwstwr) yn teimlo fod llawer o allbwn S4C ddim yn berthnasol nac o ddiddordeb i'w grŵp oedran nhw. Roeddent yn meddwl fod S4C yn wan ym maes drama, comedi, operâu sebon, a rhaglenni ffordd o fyw wedi eu hanelu at y rhai rhwng eu harddegau hwyr a'r tridegau hwyr, ond llawer yn well am wasanaethu anghenion gwylwyr iau a'r rhai dros eu hanner can mlwydd oed. Beirniadwyd Radio Cymru hefyd gan lawer o'r rhai o dan 40 mlwydd oed am fod yn sych, diflas ac 'ar gyfer pobl hŷn' er prin fod llawer ohonynt wedi gwrandao yn ddiweddar.

Er nad oedd canfyddiad fod y cyfryngau Cymraeg yn eu crynswth yn waeth na'r cyfryngau Saesneg, roedd yna gydnabyddiaeth fod ganddynt dasg anodd ei chyflawni, sef 'bod yn bopeth i bawb'. Mae hyn yn tanlinellu mater arall sylweddol a chyd-gysylltiedig, sef **anfodlonrwydd gyda'r dewis sydd ar gael yn nhermau teledu, radio, llyfrau a chylchgronau Cymraeg**. Galwodd nifer o bobl am ragor o ddewis yn y cyfryngau hyn i gyd. Yn y rhan fwyaf o achosion golygent ehangu'r portffolio rhaglenni ar S4C a Radio Cymru neu ehangu'r ystod llyfrau ar gael yn y Gymraeg, er mwyn cynnwys rhai a fyddai o ddiddordeb iddynt hwy, ond hefyd, mewn rhai achosion, cafwyd cais am ragor o sianeli teledu a gorsafoedd radio yn cynnig rhaglenni Cymraeg.

- **Pa mor nerfus ydynt wrth ddefnyddio eu Cymraeg?**

Yn olaf, roedd yna rai sefyllfaoedd lle'r oedd yna ymdeimlad fod yna **fwy o risg yn gysylltiedig â defnyddio'r Gymraeg na'r Saesneg**.

Roedd hyd yn oed siaradwyr Cymraeg rhugl (yn bennaf Rhai yn y Brif Ffrwd ond Cofleidwyr hefyd o dro i dro) weithiau yn amheus ynghylch defnyddio'r dewis Cymraeg ym mheiriant twll yn y wal y banc neu wrth ddelio gyda phethau 'swyddogol'. Doedd na'r un Dyhewr nac Ymdrechwr yn y cyfweiliadau dwys yn teimlo'n hyderus ynghylch codi arian trwy gyfrwng y Gymraeg. Nid oedd pobl yn hyderus y byddent yn deall yn gyfan gwbl y derminoleg a ddefnyddid, ac oherwydd y posibilrwydd o ganlyniadau â goblygiadau difrifol, tueddent chwarae'n saff a defnyddio Saesneg.

### **3.2.4 Crynodeb o'r rhwystrau i fyw bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg i raddau helaethach**

Crynohir y prif bethau sy'n rhwystro siaradwyr Cymraeg rhwng 22 a 45 mlwydd oed o fewn y pedwar prif glwstwr y rhoddwyd sylw iddynt yn yr astudiaeth ansoddol rhag defnyddio'r Gymraeg i raddau helaethach yn eu bywydau bob dydd isod. Mae Ffigur 5 yn nodi hefyd eu pwysigrwydd i bob un o'r dyraniadau clwstwr:



## Crynodeb o'r Rhwystrau

RHWYSTR	Cofleidwyr	Defnyddwyr yn y brif ffrwd	Dyhewyr	Ymdrechwyr
Hyder	Isel (ond yn uwch wrth ysgrifennu yn Gymraeg)	Cymharol isel (ond yn uwch wrth ysgrifennu yn Gymraeg)	<b>Uchel</b>	<b>Uchel iawn</b>
Cyfle i ddefnyddio Cymraeg	Isel (ond gall amrywio yn dibynnu ar leoliad y cartref)	Cymharol isel	<b>Uchel</b>	<b>Uchel iawn</b>
Y canfyddiad yw ei bod yn fwy o risg yn y Gymraeg	Isel	<b>Canolig (ar gyfer rhai [pethau])</b>	<b>Uchel</b>	<b>Uchel</b>
Diffyg amlygrwydd / ymwybyddiaeth o'r dewis Cymraeg	<b>Canolig</b>	<b>Canolig</b>	<b>Uchel</b>	<b>Uchel</b>
Arfer / syrthni	Isel neu ganolig	<b>Canolig</b>	Isel	Isel
Mynediad i ddewisiadau Cymraeg	Isel (yn dibynnu ar lle'r ydych yn byw)	Cymharol isel	<b>Uchel</b>	<b>Uchel</b>
Iaith / ffurfiolrwydd yn gwneud Cymraeg yn anodd i'w ddeall	Isel	Cymharol isel	<b>Uchel</b>	<b>Uchel</b>
Agwedd / ymddygiad siaradwyr Cymraeg eraill	Dim / Isel	Dim / Isel	<b>Uchel</b>	<b>Uchel</b>
Dewis cyfyng yn Gymraeg	<b>Uchel yn ddieithriad</b>			
Diffyg perthnasedd / apêl y dewis Cymraeg i'r ystod oedran hwn	<b>Uchel ar y cyfan (yr eithriad = rhai 40+)</b>			

Ffigur 5

Gan nad oedd yna gynrychiolwyr o blith y Rhai di-hid o fewn y samplau ar gyfer yr astudiaeth ansoddol, ni ymddangosodd rhwystrau agwedd na chwaith barodrwydd i ddefnyddio'r Gymraeg fel ystyriaethau arwyddocaol. Pe bai'r grŵp clwstwr hwn (a ddiffiniwyd gan eu diffyg ymrwymiad i'r Gymraeg, fel a nodwyd yn gynt) wedi ei gynnwys, yna mae'n bur debyg y byddai'r canfyddiadau wedi bod yn wahanol.

## 4. ARGYMHELLION

### 4.1 Sut y gellir cynyddu cyfranogiad?

Fel y mae'r adroddiad yn ei ddangos, mae'r cymhellion a'r rhwystrau i fyw bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg llawn mor amrywiol â siaradwyr Cymraeg eu hunain. Nid yw'n syndod felly nad oes yna'r un 'ateb chwim' y gellir ei argymhell. Fodd bynnag, mae yna rai themâu clir sy'n ymddangos o'r astudiaeth a fuasai, o'i gweithredu gyda'i gilydd a thros amser, yn medru esgor ar gynnydd yn y cyfranogiad. Crynhoir y rhain yn y tabl isod:

<b>Thema</b>	<b>Amcan</b>	<b>Awgrymiadau ar gyfer gweithredu</b>
<b>1. Marchnata</b>	Cynyddu proffil gweledol cyfryngau a chelfyddydau Cymraeg Gwrthbwyso unrhyw ganfyddiadau negyddol sydd wedi dyddio ond sy'n para ynghylch cyfrwng penodol (e.e. Radio Cymru) Codi ymwybyddiaeth siaradwyr Cymraeg sydd ddim ar hyn o bryd o reidrwydd yn cyfranogi rhyw lawer trwy gyfrwng y Gymraeg o'r ystod o weithgareddau Cymraeg sydd ar gael	Hyrwyddo a marchnata ar draws cyfryngau - defnyddio sianeli prif ffrwd a chyfryngau Saesneg er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r dewisiadau Cymraeg (e.e. yr ymgyrch ddiweddar i hyrwyddo Radio Cymru ar BBC1 Wales; hysbysebu digwyddiadau celfyddydol neu theatr Cymraeg mewn digwyddiadau theatrig Saesneg ac yn nhudalennau 'beth sydd ymlaen' y papurau newydd Saesneg lleol; hyrwyddo gigiau cerddorol Cymraeg mewn prif siopau recordiau ac mewn gigiau Saesneg)
<b>2. Dewis a pherthnasedd</b>	Cynnig cynhyrchion / rhaglenni sy'n apelio mwy at siaradwyr Cymraeg ac sy'n fwy tebygol o gael eu prynu / eu gwyllo ganddynt o ganlyniad Cau unrhyw dyllau lle nad oes rhywbeth Cymraeg cyfatebol yn bodoli Mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau parthed y math o Gymraeg a ddefnyddir	Ehangu portffolio'r digwyddiadau / cynhyrchion / rhaglenni sydd ar gael, er mwyn cyflwyno mwy sydd wedi ei deilwra'n benodol ar gyfer y rhai rhwng 22-45 mlwydd oed, a chwaeth fwy poblogaidd rhai C2DE Ystyried defnyddio technoleg newydd neu addasu ffrydiau data sy'n bodoli eisoes er mwyn creu lle ar gyfer allbwn mwy cyfoes wedi ei dargedu Adolygu lefel ffurfioldeb y Gymraeg a ddefnyddir yn y cyfryngau, ac yn arbennig felly'r newyddion Cyflwyno cynnwys / rhaglenni wedi eu gogwyddo tuag at ddysgwyr a'r rhai sy'n dymuno gwella eu Cymraeg, gan ddefnyddio Cymraeg mwy sgysiol
<b>3. Dosbarthiad</b>	Gwneud llyfrau, cylchgronau a cherddoriaeth Gymraeg yn haws eu cael a'u gosod i raddau helaethach yn y brif ffrwd	Cynyddu dosbarthiad llyfrau a CDau Cymraeg yn y prif siopau llyfrau a recordiau yn y stryd fawr - byddai presenoldeb uwch yn esgor ar werthiant uwch ond hefyd at godi proffil defnyddiau Cymraeg Yn ogystal, cyflwyno marchnata mwy cadarnhaol o sianeli amgen ar gyfer prynu llyfrau a cherddoriaeth Cymraeg, megis ar-lein

<p><b>4. Addysg a gwybodaeth</b></p>	<p>Goresgyn amheuaeth pobl ynghylch defnyddio'r Gymraeg mewn rhai sefyllfaoedd ffurfiol Goresgyn grym arferiad / syrthni pobl sy'n golygu eu bod yn parhau fel ag o'r blaen</p>	<p>Ystyried cael ymgyrch cyfathrebu â'r neges ei bod hi'n ddewis hawdd risg isel i ddefnyddio'r dewis Cymraeg wrth godi arian yn y peiriant twll yn y wal Cynorthwyo siaradwyr Cymraeg rhugl i oresgyn unrhyw ofidiau gyda'u hyder parthed eu Cymraeg ysgrifenedig trwy gael cyrsiau atgoffa Cael fersiynau Cymraeg a Saesneg o ffurflenni swyddogol ochr yn ochr yn hytrach na chefn wrth gefn Annog siaradwyr Cymraeg i roi pwysau cadarnhaol ar gyfeillion er mwyn eu cael i wneud pethau yn Gymraeg yn hytrach na Saesneg Annog siaradwyr Cymraeg rhugl i fod yn fwy goddefgar a chefnogol gyda dysgwyr, a'u cael i siarad yn arafach yn hytrach na throi i'r Saesneg Annog siaradwyr Cymraeg mewn cartrefi a theuluoedd amlieithog i ddefnyddio'r Gymraeg yn hytrach na Saesneg gydag aelodau o'r teulu sy'n dysgu Cymraeg</p>
<p><b>5. Cyfleoedd</b></p>	<p>Hwyluso defnyddio'r Gymraeg lle bynnag y bo hynny'n bosib</p>	<p>Creu / agor rhwydweithiau cymdeithasol Cymraeg ar gyfer rhai sydd heb rai naturiol (e.e. Ymdrechwyr sy'n dysgu'r Gymraeg) Meithrin sefyllfaoedd anffurfiol 'heb ofn' ar gyfer Dyhewyr ac Ymdrechwyr sy'n dysgu, fedru ymarfer eu Cymraeg Ei gwneud hi'n haws i siaradwyr Cymraeg fedru adnabod ei gilydd mewn llefydd cyhoeddus / ar y stryd fawr er mwyn annog defnyddio'r Gymraeg Annog y rhai hynny a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg i lunio rhwydweithiau cymdeithasol Cymraeg hirdymor a fydd yn sicrhau nad ydynt yn colli eu Cymraeg o adael yr ysgol neu'r Brifysgol</p>